Papur 3

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus James Cleverly AS
Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

19 Mawrth 2024

Annwyl James

Y Bil Cyfiawnder Troseddol

Yn ein cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth 2024, gwnaethom drafod llythyr ar y cyd gan elusennau digartrefedd a sefydliadau tai sy'n gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â'r Bil Cyfiawnder Troseddol. Mynegodd y sefydliadau hynny eu pryderon – a ddisgrifiwyd ganddynt fel pryderon difrifol – o ran cymalau'r Bil ar gardota niwsans a chysgu allan sy'n achosi niwsans.

Rydym yn nodi o Nodiadau Eglurhaol y Bil eich bod yn ystyried bod proses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn ymwneud â nifer o'i chymalau, gan gynnwys cymalau 38 i 47, 51 i 60, 63 a 64 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â chardota niwsans a chysgu allan sy'n achosi niwsans.

Oherwydd difrifoldeb y pryderon a godwyd gyda ni, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r pwyntiau penodol a godwyd gan y sefydliadau, gan gynnwys y canlynol:

- bod y mesurau'n 'dad-ddynoli' ac na allent fod ymhellach o'r cyfeiriad cyffredinol yng Nghymru, fel yr amlinellwyd yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar ddigartrefedd a'r Papur Gwyn ar roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru;
- nad yw dirwyo neu symud pobl ymlaen nad oes ganddynt unrhyw le i fynd yn datrys digartrefedd; a
- y bydd y cymalau'n achosi pobl sy'n cysgu allan i gael eu dadleoli i ardaloedd llai diogel ac y bydd yn effeithio ar yr ymddiriedaeth rhwng pobl sy'n cael eu gorfodi i gysgu ar y strydoedd a'r sefydliadau a'r awdurdodau a all roi cymorth iddynt.

A fyddech cystal ag ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Mercher 10 Ebrill 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd